*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PWYLLGOR ARCHWILIO** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 20 MAWRTH 2023** am **09.30 o'r gloch** yn rhithiol **dros Zoom**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datganiadau o Fuddiant**

**3. Hysbysiad o Faterion Brys**
Hysbysiad o'r eitemau y dylid, yn ôl y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**4. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Rhagfyr 2022**

**5. Materion yn Codi**

**6. Darparu Archwiliad Mewnol**

**7. Crynodeb o Archwiliad Blynyddol Archwilio Cymru**

**8. Y Diweddaraf am y Gyllideb**

**9. Canolfan Hyfforddiant**

**10. Materion Brys**
Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y cafodd eu pwysigrwydd eu datgan o dan eitem 3 uchod.

**RHAN II**
Yn unol ag Adran 100 A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**11. Dim**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 12 Rhagfyr 2022 yn rhithwir dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Nigel Smith (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Mark Young (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd (cyrraedd am 10:00) |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Stewart Forshaw | Y Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |
| Helen Howard | Pennaeth Cyllid a Chaffael |
| George Jones | Atebol - Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwy-ydd Gweithredol |
| Louisa Phillips | Rheolwr Newid M365 |
| Keith Williams | Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Neil Coverley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**2 DATGANIADAU BUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau buddiant i'w cofnodi.

Draft

## 3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 29 GORFFENNAF 2022

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2022 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**
**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod cywir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

## 5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd materion yn codi.

## 6 STRATEGAETH GYFALAF A RHEOLI'R TRYSORLYS

6.1 Nodwyd bod adroddiad ysgrifenedig wedi'i ddarparu ar gyfer y cyfarfod hwn i roi diweddariad i'r Aelodau am weithgarwch rheoli'r trysorlys ar gyfer 2022/23, ac i gyflwyno i'r aelodau y Strategaeth Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys arfaethedig (y Strategaethau) yn ymgorffori'r Datganiad Isafswm Refeniw ar gyfer y cyfnod Ebrill 2023 – Mawrth 2024.

6.2 Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod ffigurau o fewn yr adroddiad hwn a oedd yn gyson ag Eitem Rhif 7 ar yr Agenda, ac felly byddai rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y ddwy eitem.

6.3 Eglurwyd nad oedd yr eitem hon yn ymwneud â chadarnhau'r gyllideb ei hun, ond ynghylch cydnabod y dangosyddion darbodus a oedd yn cyfyngu ar fenthyciadau'r Gwasanaeth.

6.4 Cytunwyd y byddai unrhyw benderfyniad ar yr eitem hon yn cael ei ohirio nes cyfarfod llawn yr Awdurdod ym mis Ionawr, yn dilyn trafodaethau parhaus ag Arweinwyr Awdurdodau Lleol a setliad Llywodraeth Cymru oedd i fod i ddigwydd ddydd Mercher 14 Rhagfyr.

6.5 **PENDERFYNWYD:**

- **i. nodi'r sefyllfa canol blwyddyn ar gyfer gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer 2022/23; a**
- **II. nodi'r Strategaethau Cyfalaf, Rheoli'r Trysorlys a Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2023/24;**

## 7. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2023/26 A CHYLLIDEB 2023/24

7.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol MacArthur adroddiad Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2023/26 a Chyllideb 2023/24 a gyflwynodd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2023/26 i'r aelodau a'r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2023/24. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r risgiau a'r ansicrwydd sylweddol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd.

7.2 Eglurwyd nad oedd gofyn i Aelodau gymeradwyo'r gyllideb heddiw, dim ond ei chadarnhau ac argymell ei chymeradwyo yng nghyfarfod llawn yr Awdurdod ar 16 Ionawr 2023.

7.3 Cafodd y ffigurau o fewn yr adroddiad eu crynhoi i'r Aelodau drwy gyflwyniad ar y sgrin. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod llawer o'r codiadau y tu hwnt i reolaeth y Gwasanaeth oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol, a bod nifer hefyd yn ymwneud â blaenoriaethau'r Gwasanaeth, yr oedd rhwymedigaeth gyfreithiol arno i'w cyflawni.

7.4 Cytunwyd y byddai cyfarfod pellach o'r Pwyllgor Archwilio yn cael ei alw cyn cyfarfod llawn yr Awdurdod ym mis Ionawr er mwyn trafod y gyllideb hon ymhellach.

7.5 **PENDERFYNWYD:**

- **(i) nodi'r cyllidebau cyfalaf a refeniw ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar £5.32m o gynnydd mewn cyfraniadau gan awdurdodau cyfansoddol;**
- **(ii) nodi'r risgiau a'r ansicrwydd allweddol a nodwyd yn ystod y broses o gynllunio'r gyllideb;**
- **(iii) nodi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig; a**
- **(iv) nodi y bydd gofyn cymeradwyo'r gyllideb gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023.**
- **(v) cwrdd fel Pwyllgor Archwilio cyn cyfarfod llawn yr Awdurdod ar 16 Ionawr 2023 er mwyn trafod ffigurau'r gyllideb yn fanylach.**

## 8 CYNLLUN ARCHWILIO GWELLIANNAU 2022/23

8.1 Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân Forshaw adroddiad Cynllun Archwilio Gwelliant 2022/23, a oedd yn cadarnhau canlyniad yr archwiliad allanol o fesurau gwella 2022/23 yr Awdurdod i'r Aelodau, yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

8.3 **PENDERFYNWYD:**

- **i. Nodi'r llythyr archwilio yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi rhyddhau ei gyfrifoldebau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.**

Draft

## 9 MATERION BRYS

9.1 Nid oedd materion brys i'w trafod.

Ar ddiwedd Rhan I o'r agenda, daeth recordiad y cyfarfod i ben a chytunwyd i symud i Ran II o'r cyfarfod.

## 10. GWEITHREDU DIWYDIANNOL (AR LAFAR)

10.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân adroddiad ar lafar a oedd yn diweddaru'r Aelodau am y trafodaethau cyflog cenedlaethol, y potensial ar gyfer gweithredu diwydiannol a'r trefniadau parhad busnes sy'n cael eu rhoi ar waith.

10.2 Roedd papur Rhan II eisoes wedi cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn amlinellu'r cynnig cyflog o 2% i ddiffoddwyr tân a staff ystafell reoli, a oedd wedi cael ei wrthod.

10.3 Roedd Undeb y Brigadau Tân (FBU) wedi argymell bod eu haelodau'n gwrthod y cynnig uwch dilynol o 5% heb unrhyw amodau ynghlwm, a dyna a wnaethant. Cafodd pleidlais dros Weithredu Diwydiannol ei dechrau gyda'r dyddiad cau ar ddiwedd mis Ionawr 2023. Yn anffodus, nid oedd yr FBU wedi nodi pa ganran y byddai'n ei derbyn ac felly nid oes modd dweud pa mor bell ohoni yw'r cynnig.

10.4 Nodwyd nad oes unrhyw reolau yng Nghymru o ran y ganran o bleidleisiau sy'n ofynnol ar gyfer Gweithredu Diwydiannol fel sydd yn Lloegr, ac felly roedd y Gwasanaeth yn disgwyl i streic fynd rhagddi.

10.5 Atgoffwyd yr Aelodau fod y Gwasanaeth yn gaeth i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 a'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub o ran parhau i ddarparu gwasanaethau pe bai streic yn digwydd. Cafodd y gofynion hyn eu crynhoi.

10.6 Roedd gofyn i'r Gwasanaeth gynllunio yn unol â hynny fel nad oedd modd ei feirniadu am beidio â chynnal darpariaeth y gwasanaeth yn ystod unrhyw gyfnod o streic.

10.7 Y camau gweithredu posib oedd ar gael i aelodau'r FBU oedd: gweithredu heb fod yn streicio a fyddai'n golygu y byddai diffoddwyr tân yn gwrthod ymgymryd ag unrhyw waith goramser; streicio bylchog am gyfnodau o dair neu bedair awr neu shifftiau cyfan; neu streicio parhaus. Roedd cynlluniau ar y gweill ar gyfer yr holl opsiynau hyn.

Draft

10.8 Cafodd y rhai oedd yn bresennol wybod bod nifer fawr o swyddogion, diffoddwyr tân a gweithwyr o'r ystafell reoli yn aelodau o'r FBU ac felly y byddai disgwyl iddyn nhw gydymffurfio â chanlyniad y bleidlais. Byddai unrhyw uwch swyddogion nad ydynt yn cymryd rhan yn y streic yn ymgymryd â hyfforddiant diweddaru tua dechrau'r Flwyddyn Newydd. Roedd cynlluniau hefyd yn cael eu rhoi ar waith i aelodau nad ydynt yn aelodau o'r FBU gael eu hyfforddi i weithio yn ystod cyfnodau o weithredu diwydiannol.

10.9 Roedd y Gwasanaeth yn ystyried y lleoedd gorau yn ddaearyddol i osod peiriannau cyflenwi a pha fathau o ddigwyddiadau y byddai'r Gwasanaeth yn mynd atyn nhw pe bai'r streic yn digwydd. Mae'n debygol na fydden nhw'n ymateb i danau bin a thanau eilaidd bach ond bydden nhw'n mynd i ddigwyddiadau lle ceir bygythiad i fywyd a gwrthdrawiadau ar y ffyrdd. Ystyriwyd hefyd wrth gynllunio mai mis Chwefror yw dechrau'r tymor llosgi dan reolaeth ac felly gallai hyn achosi problem bosibl.

10.10 Efallai bod yr aelodau wedi clywed bod Gwasanaethau Tân eraill yn hysbysebu am staff criw cyflenwi; fodd bynnag, ar ôl ystyried hyn roedd yr opsiwn wedi'i ddiystyru gan ei fod yn dod â chost sylweddol ac yn darparu fawr ddim o ran cyflenwi oherwydd yr heriau'n ymwneud â'u hyfforddi i wneud unrhyw beth heblaw diffodd tân yn amddiffynnol y tu allan i adeiladau.

10.11 Bu'r Gwasanaeth yn trafod gyda'r fyddin y posibilrwydd o gael cymorth ond, ar hyn o bryd, mae wedi penderfynu peidio â chyflwyno cais am Gymorth Milwrol i Awdurdodau Sifil (MACA). Eto, mae hynny'n rhannol oherwydd y gost, sef tua £4,000 y milwr yr wythnos, a'r un pryderon ynghylch diffyg amser i ddarparu hyfforddiant perthnasol. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai'r fyddin yn opsiwn fforddiadwy ni fyddai sicrwydd y byddai ganddi'r capasiti i helpu.

10.12 Gofynnwyd pam nad oedd y fyddin yn codi cost ffiniol fel yr oedd wedi gwneud ar achlysuron blaenorol. Yr ateb oedd na fyddai'n gwneud hynny am nad oedd hwn yn argyfwng cenedlaethol. Roedd y posibilrwydd o ofyn i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei dylanwad i fynnu costau ffiniol yn cael ei ystyried oherwydd gallai hwn fod yn opsiwn mwy ymarferol.

10.12 Yn bwysicaf oll, roedd y Gwasanaeth yn parhau i weithio gyda swyddogion lleol yr FBU er mwyn cynnal diwylliant o barchu ein gilydd a chydweithredu. Roedd y Gwasanaeth hefyd yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddiweddaru'r Awdurdod Tân ar bob cyfle.

Daeth y cyfarfod i ben am 11:05 o'r gloch.

*This document is also available in English.* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **20 Mawrth 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Trefniadau Archwilio Mewnol o Ebrill 2023** |

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu i'r Aelodau yr angen am swyddogaeth archwilio mewnol cadarn ac effeithiol. Mae'r adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth i'r cynnig i gychwyn proses gaffael ar gyfer y contract archwilio mewnol o 01 Ebrill 2023.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheolaeth fewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

3 Mae'r Rheoliadau hefyd yn gofyn am archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheolaeth fewnol, a rhaid adrodd ar ganfyddiadau'r archwiliad i Aelodau'r Awdurdod. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

4 Dylai gwaith archwilio mewnol fod yn broffesiynol, yn annibynnol ac yn wrthrychol i gefnogi Aelodau'r Awdurdod i gyflawni'r cyfrifoldebau llywodraethu hyn.

5 Bydd y trefniadau archwilio mewnol presennol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2023, ac mae'r papur hwn yn nodi cynigion i ymgymryd ag ymarfer caffael ar gyfer y contract ar gyfer y cyfnod Ebrill 2023 – Mawrth 2026.

**ARGYMHELLION**

6 Argymhellir bod yr Aelodau:

i. yn nodi'r gofyniad i gynnal systemau rheoli mewnol digonol a rôl archwilio mewnol wrth gefnogi'r datganiad blynyddol;
ii. yn cymeradwyo’r dull a nodir yn y papur ar gyfer caffael gwasanaethau archwilio mewnol gan ddefnyddio Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron ar gyfer Archwilio a Sicrwydd; ac
iii. yn dirprwyo penodiad y cyflenwr llwyddiannus i banel sy’n cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Thrysorydd yr Awdurdod.

**CEFNDIR**

7 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i’r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheolaeth fewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

8 Mae'r Rheoliadau hefyd yn gofyn am archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheolaeth fewnol, a rhaid adrodd ar ganfyddiadau'r archwiliad i Aelodau'r Awdurdod. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

9 Daw’r trefniant presennol i ben ar 31 Mawrth 2023 ac mae angen gwneud darpariaeth briodol ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2023 – Mawrth 2027.

10 Rôl Gwasanaethau Archwilio Mewnol yw darparu asesiad gwrthrychol i reolwyr i weld a yw systemau rheolaeth fewnol yn bresennol ac yn gweithio'n iawn.

11 Mae'r system rheolaeth fewnol yn cynnwys y rhwydwaith cyfan o systemau a rheolaethau a sefydlwyd i reoli'r Awdurdod a sicrhau bod ei amcanion yn cael eu cyflawni.

12 Yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Pennaeth Archwilio gyflwyno barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall yr Awdurdod eu defnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu.

13 Daw’r trefniant presennol i ben ar 31 Mawrth 2023 ac mae angen gwneud darpariaeth briodol ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2023 – Mawrth 2027.

**GWYBODAETH**

14 Nid oes model rhagnodedig ar gyfer darparu gwasanaethau archwilio mewnol ond rhaid i'r rhai sy'n darparu gwasanaeth archwilio mewnol i'r sector cyhoeddus ddangos addasrwydd drwy gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU 2017. Mae hyn yn sicrhau dull proffesiynol, annibynnol a gwrthrychol o gefnogi Aelodau yn eu cyfrifoldebau.

15 Oherwydd bod y trefniant presennol yn dirwyn i ben, cynigir y dylid dechrau ymarfer caffael ar gyfer gwasanaethau ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2023 - Mawrth 2027 gan ddefnyddio Fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron y sector cyhoeddus ar gyfer Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd.

16 Mae defnyddio'r fframwaith hwn yn sicrhau bod cyflenwyr nid yn unig yn meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd gofynnol ond hefyd wedi dangos y safonau priodol mewn meysydd ehangach fel caethwasiaeth fodern.

17 Bydd yr ymarfer yn cynnwys datblygu manyleb gwasanaeth ac asesiad ariannol i sicrhau bod yr Awdurdod yn cyflawni gwerth am arian. Bydd penodiad terfynol y cyflenwr llwyddiannus yn cael ei ddirprwyo i banel o aelodau sy'n cynnwys Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Thrysorydd yr Awdurdod.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant hirdymor yr Awdurdod sef "Hwyluso gwasanaethau tân ac achub mwy integredig sydd o ansawdd uchel ac yn ymatebol fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, ac hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Gwnaed darpariaeth ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol o fewn y trefniadau gosod cyllideb. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Amherthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Amherthnasol |
| Risgiau | Cyflwynir y Datganiad Sicrwydd yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath gan yr Aelodau ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'u gallu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau sylweddol a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **20 Mawrth 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Archwilio Cymru – Crynodeb o Archwiliad Blynyddol 2022** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi i'r aelodau Grynodeb o Archwiliad Blynyddol 2022 a gynhyrchwyd gan Archwilio Cymru.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod). Mae rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sut maen nhw'n sicrhau gwerth wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

3 Mae Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2022 yn cynnwys cadarnhau'r gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru ac mae'n cynnwys archwilio'r datganiadau ariannol a'r datganiad llywodraethu blynyddol, ardystio rhwymedigaethau gwelliant yr Awdurdod a phrosiect lleol ar gynnydd yr Awdurdod i leihau ei allyriadau carbon.

4 Mae'r materion a geir o fewn Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2022 i gyd wedi cael eu hadrodd i'r Awdurdod yn flaenorol.

## ARGYMHELLION

5 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r crynodeb o'r archwiliad blynyddol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gwaith sydd wedi cael ei wneud ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn darparu asesiad gwrthrychol o berfformiad yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud yn cynnwys ystyried gwerth am arian. |
| Cyfreithiol | Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd statudol Cymru. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Mae'r asesiad gwrthrychol mewn nifer o feysydd allweddol yn cefnogi gwaith yr Awdurdod i nodi a rheoli risg. |

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2022




Dyma grynodeb o'n harchwiliad ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Awdurdod Tân ac Achub

### Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn eu darparu



| Ffeithiau allweddol |
|---|
| Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yn cynnwys aelodau etholedig enwebedig, sy'n cynrychioli'r awdurdodau lleol ar draws ardal yr Awdurdod Tân ac Achub yn gyffredinol. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnwys 28 cynghorydd sy'n cynrychioli eu hawdurdodau cyfansoddol. |
| Gwariodd yr Awdurdod Tân ac Achub £40.7 miliwn ar ddarparu gwasanaethau yn ystod 2021–22, sy'n gynnydd o 2.5% o gymharu â 2020–21[1]. |
| Ar 31 Mawrth 2022, roedd gan yr Awdurdod Tân ac Achub £1.52 miliwn mewn cronfeydd arian parod a £5.57 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn a neilltuwyd. |

[1] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2021–22

**Ffeithiau allweddol**

Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub rwymedigaeth statudol o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gallu ymdrin yn effeithiol â'r holl alwadau am gymorth pan fo tân ac argyfyngau eraill.

Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb trosfwaol dros benderfynu ar bolisi ynghylch Awdurdodau Tân ac Achub. Ar lefel leol, mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub.

Derbynnir y mwyafrif o'r cyllid ar gyfer y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru drwy ardoll gan yr awdurdodau unedol lleol yn eu hardal. Mae'r cyfraniad yn seiliedig ar niferoedd y boblogaeth.

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Gwnaethom gwblhau gwaith yn ystod 2021–22 er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio Cyfrifon**

  Bob blwyddyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod i sicrhau y rhoir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.

- **Gwelliant parhaus**

  Mae'n rhaid i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith hefyd er mwyn gwneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Awdurdod wedi bodloni'r gofynion hyn.

- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid iddo fod yn fodlon bod hyn wedi ei wneud.

- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant a chymryd camau i'w cyflawni. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

**Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn cwblhau prosiectau penodol. Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Crynhoir ein canfyddiadau a'n casgliadau isod.**

# Yr hyn a ganfuwyd gennym

## Archwilio Cyfrifon 2021–22 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Rydym yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod bob blwyddyn.

### Ar gyfer 2021–22:

- Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod gwir a theg ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar 18 Hydref 2022.
- Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod yn unol â Chod CIPFA a'r canllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod ac â'n gwybodaeth am yr Awdurdod.
- Cyflwynwyd y datganiadau drafft ar 31 Mai 2022 i'w harchwilio. Mae'r Awdurdod wedi gwneud cynnydd o ran gwella ansawdd ei ddatganiadau ariannol, fodd bynnag roeddem yn dal i ganfod nifer mawr o wallau ac anghysondebau yn y datganiadau ariannol.
- O ganlyniad i hynny, gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod a ddeilliodd o'n gwaith archwilio, ac fe'u hadroddwyd i gyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub Archwilio yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Hydref 2022.
- Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad cyfrifon ar gyfer 2021–22 wedi ei gwblhau.

## Gwelliant parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol i gynllunio ac adrodd gwelliannau ac mae'n credu ei fod yn debygol o fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn 2021–22.

## Prosiectau lleol — Lleihau Allyriadau Carbon

Yn 2021–22, cynhaliwyd adolygiad gennym o gynnydd yr Awdurdod o ran lleihau ei allyriadau carbon a chyfrannu'n llawn at nod sector cyhoeddus Cymru o ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. Ar y cyfan, canfuom nad yw'r Awdurdod yn debygol o gyflawni ei rwymedigaethau statudol a dod yn garbon sero net erbyn 2030 oni bai bod newid sylweddol mewn perfformiad.

## Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob awdurdod, rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol bob blwyddyn i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol ers yr adroddiad gwella blynyddol diwethaf:

## Cydweithio rhwng y Gwasanaethau Brys (Ionawr 2022)

Mae'r adroddiad hwn yn archwilio a yw gwasanaethau brys yng Nghymru yn cydweithio'n agosach i wneud gwell defnydd o adnoddau. Nid yw cydweithio ar draws y gwasanaethau brys i wneud y defnydd gorau o adnoddau yn gysyniad newydd. Mae'r gwasanaethau brys wedi bod yn cydweithio'n agos ers blynyddoedd er mwyn darparu gwell gwasanaeth i'r cyhoedd. Mae mentrau partneriaeth arloesol wedi arbed arian, lleihau amseroedd ymateb lleol a chyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd. Er hyn, mae disgwyliadau cynyddol o bolisi a deddfwriaeth y llywodraeth bod angen i gydweithrediad ddigwydd yn ddyfnach ac yn gyflym er mwyn sicrhau bod gwasanaethau rheng flaen yn gallu cyflawni'r heriau sy'n wynebu Cymru'r unfed ganrif ar ddeg. Ar y cyfan, daethom i'r casgliad bod cydweithredu gwasanaethau brys golau glas yn datblygu'n araf ond bod angen newid sylweddol mewn gweithgareddau i sicrhau'r effaith fwyaf posibl ac i wneud y defnydd gorau o adnoddau.

## Taliadau Uniongyrchol (Ebrill 2022)

Mae Taliadau Uniongyrchol yn ddewis arall yn lle gofal neu gymorth a drefnir gan awdurdod lleol, a gall helpu i ddiwallu angen unigolyn neu ofalwr. Eu nod yw rhoi mwy o ddewis, mwy o hyblygrwydd a mwy o reolaeth i bobl dros y gefnogaeth maen nhw'n ei chael. Edrychodd ein hadroddiad ar sut mae Taliadau Uniongyrchol yn helpu i gynnal llesiant pobl ac a ydynt yn gwella ansawdd bywyd. Gwnaethom edrych hefyd ar sut mae awdurdodau lleol yn rheoli ac annog pobl i dderbyn Taliadau Uniongyrchol ac a yw'r gwasanaethau hyn yn cyflwyno gwerth am arian. Canfuom fod Taliadau Uniongyrchol yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ac roedd y bobl a arolygwyd gennym yn cydnabod eu bod yn eu helpu i aros yn annibynnol. Ond canfuom hefyd fod rheoli a chefnogi pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol yn amrywio'n fawr, gan arwain at ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn cael safonau gwasanaeth gwahanol.

## Amser am newid — Tlodi yng Nghymru (Tachwedd 2022)

Nid yw tlodi yng Nghymru yn ffenomen newydd ac mae mynd i'r afael â thlodi, yn enwedig tlodi plant, wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a chynghorau yng Nghymru. Mae'r argyfwng costau byw presennol yn golygu bod mwy o bobl yn cael eu heffeithio, a bod teuluoedd sydd wedi bod yn byw yn gyfforddus yn symud i dlodi am y tro cyntaf. Mae llawer o'r dulliau y gellid eu defnyddio i liniaru tlodi y tu hwnt i reolaeth Cymru. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru Strategaeth Tlodi Plant yn 2011, ond mae wedi dyddio ac mae'r targed o ddileu tlodi plant erbyn 2020 wedi ei adael. Mae cynghorau a phartneriaid yn blaenoriaethu gwaith ar dlodi, ond mae'r cymysgedd o ddulliau a thirlun partneriaethau cymhleth yn golygu bod uchelgeisiau, pwyslais, gweithredoedd, a blaenoriaethau yn amrywio'n fawr. Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyllid refeniw sylweddol ar gael ond, oherwydd cymhlethdod a natur y materion, mae lefel gyfan y gwariant yn anhysbys, ac nid oes unrhyw

gyngor sy'n gwybod graddau ei wariant ar liniaru a mynd i'r afael â thlodi. Mae natur tymor byr rhaglenni grant, gweinyddiaeth sy'n orgymhleth, gwendidau mewn canllawiau a chyfyngiadau ar grantiau, a thrafferthion gwario arian yn golygu nad yw'r cyllid yn cael yr effaith y gallai. Mae cynghorau'n ei chael hi'n anodd darparu gwaith ataliol oherwydd graddfa'r galw gan bobl sydd mewn argyfwng.

## 'Cyfle wedi'i golli' — Mentrau Cymdeithasol (Rhagfyr 2022)

Mae Mentrau Cymdeithasol yn eistedd rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Maent yn cymhwyso strategaethau masnachol er mwyn sicrhau'r gwelliannau mwyaf posibl o ran llesiant ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, ar gyfer grwpiau unigol mewn cymdeithas, cymunedau diffiniedig neu ardaloedd daearyddol yn aml. Mae menter gymdeithasol yn gweithio ym mhob sector o economi Cymru ac ym mhob rhan o'r wlad, ac maent yn fwyfwy amlwg yn neddfwriaeth Senedd Cymru. Er bod awdurdodau lleol yn honni eu bod yn gwerthfawrogi Mentrau Cymdeithasol, ychydig iawn sydd wedi mapio eu gweithgarwch ac nid yw'r mwyafrif o'r awdurdodau yn gwybod graddfa'r ddarpariaeth sydd yn eu hardal. Mae llai na thraean o'r awdurdodau lleol yn ystyried bod ganddynt berthynas rhagweithiol a chefnogol â Mentrau Cymdeithasol ac nid oes gan yr un ohonynt strategaeth neu bolisi penodol sy'n siartio sut maen nhw'n bwriadu hybu a datblygu'r sector. O ganlyniad i hynny, mae awdurdodau lleol yn colli allan ar y posibilrwydd y gallai Mentrau Cymdeithasol helpu i ddarparu gwasanaethau a all wella ansawdd bywydau pobl. Yn aml, mae'r trefniadau caffael a chomisiynu presennol yn digalonni Mentrau Cymdeithasol rhag ymgysylltu yn anfwriadol oherwydd eu bod yn orfiwrocrataidd. Gwerth cymdeithasol — y gwerth ychwanegol y gall prosesau comisiynu ei gyflawni — nid yw'n ymddangos fel sbardun allweddol i lawer o awdurdodau lleol. Nid yw'r mwyafrif o'r awdurdodau lleol yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac yn hybu Mentrau Cymdeithasol yn effeithiol.

## 'Gyda'n gilydd fe allwn ni' – Cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau (Ionawr 2023)

Ar adeg pan mae'n debygol y bydd gostyngiadau ychwanegol mewn gwariant cyhoeddus, mae awdurdodau lleol yn dangos diddordeb cynyddol mewn annog a datblygu cydnerthedd cymunedau; galluogi pobl i wneud mwy drostynt eu hunain a bod yn llai dibynnol ar y wladwriaeth. Er bod 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yn blaenoriaethu cydnerthedd cymunedau, yn rhy aml, mae'r gwaith wedi ei ddiffinio'n wael ac mae pwyslais y camau sy'n tanategu'r cynlluniau yn gyfyng. O ystyried yr heriau cymdeithasol, ariannol a demograffig sy'n wynebu Cymru, mae angen uwchraddio a chyflymu gweithgarwch. Mae capasiti, adnoddau a sgiliau yn brin; mae pobl yn wynebu dewisiadau caletach ac yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r argyfwng costau byw. Mae gan gymunedau ac awdurdodau lleol eu hunain alluoedd gwahanol hefyd ac maent yn dechrau o wahanol leoedd gyda'u heriau unigryw eu hunain i'w goresgyn. Rydym yn tynnu sylw at arferion cadarnhaol ac enghreifftiau o'r ffordd y mae eraill yn ceisio mynd i'r afael â'r her o alluogi pobl i fod yn llai dibynnol ar wasanaethau'r awdurdodau lleol a sut maent yn cefnogi ac yn galluogi'r trawsnewid hwn.

## Gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2022–23

Buom hefyd yn edrych ar y cyfleoedd a'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod. Gallai'r rhain effeithio ar allu'r Awdurdod i fodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn cysylltiad â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gwelliant parhaus a'r defnydd o'i adnoddau. Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2022–23 yn cwmpasu galwadau tân diangen.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe'i penodwyd gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Y Senedd sy'n dwyn Swyddfa Archwilio Cymru i gyfrif.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, yn asesu cydymffurfiaeth â gweddill gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gallai gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi, a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Senedd, a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

*This document is also available in English.* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **20 Mawrth 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Pwnc | **Cyllideb Refeniw 2023/24** |

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1 Rhoi diweddariad ariannol i'r aelodau yn dilyn cymeradwyo cyllideb refeniw 2023/24 yng nghyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 16 Ionawr 2023.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cymeradwyodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gyllideb refeniw 2023/24 yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023. Mae'r gyllideb gymeradwy o £43.314m yn cynrychioli cynnydd o flwyddyn i flwyddyn o 9.9% ac roedd yn cynnwys y gofyniad i gyflawni arbedion o £1.4m i gyflawni sefyllfa gytbwys.

3 Ar adeg gosod y gyllideb, cydnabuwyd bod nifer o risgiau ac ansicrwydd yn bodoli. Roedd y rhain yn cynnwys y dyfarniad cyflog heb ei benderfynu ar gyfer diffoddwyr tân ar gyfer 2022/23 a dyfarniadau cyflog i'r holl staff ar gyfer 2023/24. Mae pob dyfarniad cyflog yn amodol ar drafodaethau cenedlaethol, ac mae'r amserlenni y tu allan i reolaeth yr Awdurdod.

4 Ers cymeradwyo cyllideb refeniw 2023/24 mae'r trafodaethau cyflog ar gyfer diffoddwyr tân wedi dod i ben ar gyfer 2022/23 a 2023/24 gyda chynnydd o 7% a 5% yn y drefn honno. Mae hwn yn daladwy o fis Gorffennaf bob blwyddyn ac mae'n uwch na'r rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth osod cyllidebau 2022/23 a 2023/24. Mae dyfarniad cyflog 2023/24 ar gyfer yr holl staff eraill yn parhau heb ei benderfynu ar adeg ysgrifennu hwn.

5 Mae'r papur hwn yn cadarnhau'r pwysau cost ychwanegol o £1m sy'n deillio o'r trafodaethau cyflog sydd wedi dod i ben. Cynigir y dylid mynd i'r afael â'r pwysau cost hyn drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr, gan gydnabod y sefyllfa ddiffyg cylchol sylfaenol.

**ARGYMHELLION**

6 Gofynnir i'r aelodau:

(i) nodi casgliad y trafodaethau cyflog ar gyfer diffoddwyr tân a'r pwysau cost pellach cysylltiedig;
(ii) ystyried defnyddio cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr i fynd i'r afael â'r pwysau cost sy'n deillio o setliad cyflog y diffoddwyr tân;
(iii) nodi bod y trafodaethau cyflog ar gyfer yr holl staff eraill yn parhau i fod heb eu penderfynu ar hyn o bryd; a
(iv) nodi y bydd gan y diffyg sylfaenol o £2.4m oblygiadau anorfod ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol a chynnydd yn yr ardoll ar gyfer 2024/25.

**CEFNDIR**

7 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod osod cyllideb refeniw fantoledig y mae'n rhaid ei chymeradwyo gan yr Awdurdod llawn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er nad yw'r term "mantoledig" wedi'i ddiffinio'n ffurfiol yn y ddeddfwriaeth, mae CIPFA (y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus) yn cydnabod y dylai sefydliadau gael cynlluniau ariannol sy'n dangos sut y caiff y gwariant ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig.

8 Mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn y tymor byr, canolig a hir yn seiliedig ar adnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r prif bethau sy'n gyrru costau, gan gynnwys gwerthuso risgiau ac ansicrwydd. Agweddau hanfodol ar hyn yw'r gofynion ar y gwasanaeth, yr adnoddau sydd ar gael, a'r weledigaeth strategol ar gyfer y dyfodol.

9 Amlygodd y broses gosod cyllideb ar gyfer 2023/24 yr heriau cyllidebol sylweddol a'r cyfyngiadau ariannol a brofir ar draws y sector cyhoeddus a chydnabu'r angen i nodi mesurau i leihau'r gofyniad cyllidebol ymhellach. Nodwyd bod y sgôp ar gyfer arbedion effeithlonrwydd yn gyfyngedig o ystyried maint y gostyngiadau yn y gyllideb dros y 15 mlynedd diwethaf.

10 Cymeradwyodd yr Awdurdod y gyllideb refeniw o £43.314m ar gyfer 2023/24 yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2023 yn dilyn cyfres o gyfarfodydd cynllunio gan aelodau. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o flwyddyn i flwyddyn o 9.9% ac roedd yn cynnwys y gofyniad i nodi arbedion o £1.4m i gyflawni sefyllfa gytbwys. Fodd bynnag, ar adeg gosod y gyllideb nodwyd bod nifer o risgiau gweddilliol ac ansicrwydd yn parhau.

11 Roedd y risgiau hyn yn cynnwys y dyfarniad cyflog heb ei benderfynu ar gyfer diffoddwyr tân ar gyfer 2022/23 a dyfarniadau cyflog i'r holl staff ar gyfer 2023/24. Mae pob dyfarniad cyflog yn amodol ar drafodaethau cenedlaethol, ac mae'r amserlenni y tu allan i reolaeth yr Awdurdod.

**GWYBODAETH**

12 Mae'r trafodaethau cyflog ar gyfer staff a gyflogir ar delerau ac amodau'r llyfr llwyd (diffoddwyr tân) wedi dod i ben ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/24. Mae'r setliad y cytunwyd arno wedi'i nodi isod:

| Blwyddyn | % cynnydd (gwirioneddol) T | Rhagdybiaeth gynllunio % | Taladwy o |
|---|---|---|---|
| 2022/23 | 7 | 5 | 1 Gorffennaf 2022 |
| 2023/24 | 5 | 4 | 1 Gorffennaf 2023 |

13 Mae'r setliad uwchlaw'r rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddiwyd wrth osod y gyllideb ym mis Ionawr 2023, gan greu pwysau cost cylchol pellach o £1m.

14 Yn y tymor byr, cynigir y bydd y pwysau cost yn cael eu rheoli trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Er nad yw hyn yn gynaliadwy yn y tymor canolig mae hyn yn osgoi codi ardoll atodol ar awdurdodau lleol y rhanbarth yn ystod 2023/24, a bydd yn rhoi cyfle i Aelodau ystyried yr opsiynau sy'n codi o'r Adolygiad o Ddarpariaeth Frys.

15 Nodir bod y trafodaethau cyflog ar gyfer yr holl staff eraill yn parhau i fod heb eu penderfynu ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ac mae hyn yn parhau i fod yn risg ariannol ar gyfer 2023/24.

16 Er bod defnydd pellach o gronfeydd wrth gefn yn osgoi'r angen i godi ardoll atodol ar gyfer 2023/24, ni fydd y defnydd hwn o gronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy ar gyfer 2024/25. Creodd y gyllideb a gymeradwywyd ym mis Ionawr 2023 ofyniad i nodi arbedion cost cylchol o £1.4m ac, ynghyd ag effaith bellach y setliadau cyflog, mae'r diffyg sylfaenol ym mis Ebrill 2023 wedi cynyddu i £2.4m.

17 Er mwyn cyflawni sefyllfa ariannol gynaliadwy ar gyfer 2024/25 a thu hwnt, bydd angen cymryd camau pellach, gan gynnwys penderfyniadau anodd ar newidiadau parhaol i fodelau darparu a chyllido gwasanaethau, a chynnydd blynyddol sylweddol yn yr ardoll ar awdurdodau lleol ar gyfer 2024/25.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gyllideb yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion llesiant hirdymor. |
| Cyllideb | Mae'r adroddiad hwn yn nodi effaith setliad y trafodaethau cyflog ar gyfer staff a gyflogir o dan delerau ac amodau'r llyfr llwyd. Nodir bod trafodaethau cyflog ar gyfer yr holl staff eraill yn parhau i fod heb eu penderfynu ar hyn o bryd ac yn cynrychioli risg ariannol pellach. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i osod cyllideb refeniw fantoledig. Yn gysylltiedig â hyn mae'n rhaid i'r Awdurdod hefyd gydymffurfio â dyletswyddau cyfreithiol eraill gan gynnwys arferion cyfreithiol priodol. Y cynnig presennol yw y dylid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn y tymor byr tra'n aros i'r Aelodau ystyried modelau darparu gwasanaeth y dyfodol ymhellach. |
| Staffio | Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau'r cynnig i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu'r pwysau costau sy'n deillio o'r setliadau cyflog. Cydnabyddir bod hyn yn creu diffyg sylfaenol a fydd yn gofyn am adolygu modelau darparu gwasanaeth a chyllid ar gyfer 2024/25 ymlaen. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Roedd y gyllideb a gymeradwywyd ym mis Ionawr 2023 yn cynnwys nifer o risgiau ac ansicrwydd. Mae'r trafodaethau cyflog ar gyfer staff heblaw'r rhai ar delerau ac amodau'r llyfr llwyd yn parhau ar hyn o bryd.<br><br>Mae cynigion y gyllideb yn cynnwys gweithgaredd ar lefelau arferol a bydd mwy o bresenoldeb mewn digwyddiadau yn creu pwysau cost pellach.<br><br>Mae'r setliad i staff ar delerau ac amodau'r llyfr llwyd yn cynyddu'r diffyg cylchol ac mae'r cynnig i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn fesur tymor byr yn unig ac nid yw'n gynaliadwy. Bydd sefydlogrwydd ariannol ar gyfer 2024/25 ymlaen yn gofyn am gytundeb pellach ar fodelau darparu gwasanaeth a threfniadau ariannu. |

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **20 Mawrth 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Pwnc | **Y Diweddaraf am y Ganolfan Hyfforddi Newydd** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddaraf am y gwaith sydd wedi cael ei wneud ar gynhyrchu achos busnes manwl ar gyfer cael canolfan hyfforddiant a datblygu tân ac achub newydd yng Ngogledd Cymru.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant gweithredol hanfodol i'w staff i gefnogi darpariaeth gwasanaethau a diogelwch diffoddwyr tân. Nododd asesiad y Prif Swyddog Tân a gynhaliwyd yn ystod 2021 fod hyfforddiant yn faes blaenoriaeth a chafwyd cymeradwyaeth yr Awdurdod i gynnal adolygiad llawn ar ddarparu hyfforddiant a datblygiad gweithredol yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn y dyfodol.

3 Mae hyn wedi cynnwys adolygiad o'r cyfleusterau hyfforddiant gweithredol presennol, gan gynnwys y rhai yng ngorsafoedd tân Dolgellau a'r Rhyl. Nododd yr adolygiad hwn fod angen buddsoddi mewn cyfleusterau hyfforddiant a datblygu newydd er mwyn sicrhau parodrwydd a diogelwch gweithredol diffoddwyr tân. Yn benodol, mae angen darparu profiadau hyfforddi trochol ac ymarferol ar draws ystod o senarios.

4 Mae'r adolygiad o'r cyfleusterau hyfforddiant gweithredol yn y Gwasanaeth hefyd yn cefnogi canfyddiadau adolygiad thematig y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub o hyfforddiant gweithredol o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru, sy'n cydnabod bod angen buddsoddi cyfalaf sylweddol er mwyn efelychu amodau yn y byd go iawn i ddiffoddwyr tân ddatblygu ac adnewyddu eu sgiliau gweithredol.

5 Ar ôl cael cymeradwyaeth gan yr Awdurdod, ar 17 Hydref 2022 i ddyrannu cyllideb i ddatblygu achos busnes manwl ar gyfer canolfan hyfforddiant a datblygu newydd, archwiliwyd nifer o opsiynau gan dîm y prosiect.

6 Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys nodi darn o dir addas ar gyfer y ganolfan hyfforddiant a datblygu newydd yn Sir Ddinbych.

7 Y camau nesaf fydd i'r Awdurdod ymrwymo i gytundeb cyfyngu chwe mis gyda pherchennog y tir, er mwyn gallu cynnal arolygon, asesiadau addasrwydd a thrafodaethau perthnasol gyda swyddogion cynllunio lleol cyn cyflwyno cais cynllunio amlinellol.

8 Rhagwelir y bydd cam nesaf y prosiect yn cymryd tua chwe mis, a bydd yn dod i ben pan fydd yn cyflwyno'r achos busnes ar gyfer prynu'r tir a'r opsiynau i'r Awdurdod ar 23 Hydref 2023.

9 Mae cyllideb ar gyfer prynu tir wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2023/24 yr Awdurdod, gyda'r defnydd o'r gyllideb yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau ar sail achos busnes cadarn gan Swyddogion.

**ARGYMHELLIAD**

10 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

(i) nodi'r cefndir ar gyfer adolygu cyfleusterau hyfforddiant Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru;
(ii) nodi bod y ddarpariaeth hyfforddiant bresennol yn cyrraedd diwedd ei hoes;
(iii) nodi bod cam nesaf y prosiect, i gadarnhau addasrwydd y tir a nodwyd, wedi dechrau;
(iv) nodi'r amserlenni sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ar gyfer darparu achos busnes manwl i'r Aelodau ei ystyried; ac yn
(v) dewis Aelodau o bob cyngor cyfansoddol i ffurfio gweithgor i helpu i ddatblygu a chraffu ar gynlluniau ar gyfer canolfan hyfforddi newydd.

**CEFNDIR**

11 Mewn cyfarfod o'r Awdurdod ar 20 Medi 2021, nododd y Prif Swyddog Tân yn ei hasesiad o'r sefyllfa y tair prif flaenoriaeth i'r Gwasanaeth. Roedden nhw'n cynnwys gwella argaeledd, gwella hyfforddiant a chryfhau'r strwythur corfforaethol. Cymeradwyodd yr aelodau'r blaenoriaethau hyn a dyrannu cyllid cychwynnol i gefnogi'r meysydd hyn.

12 Mae hyfforddiant wedi cael ei adolygu a'i wella drwy ddatblygu strategaeth hyfforddiant newydd. Neilltuwyd cyllid i dalu am fwy o hyfforddwyr a chael cyfleusterau hyfforddiant gweithredol newydd yn Nolgellau yn lle'r hen rai.

13 Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Awdurdod ar 17 Hydref 2022 yn argymell dyrannu cyllideb gychwynnol i ddatblygu'r achos busnes ar gyfer canolfan hyfforddi newydd.

14 Mae tîm prosiect y ganolfan hyfforddi newydd wedi ymgynghori â staff, gweithwyr proffesiynol yn y maes adeiladu, arbenigwyr cynaliadwyedd a phensaer i ddatblygu dyluniad lefel uchel ar gyfer canolfan hyfforddiant a datblygu newydd yng ngogledd Cymru. Mae hyn hefyd wedi cynnwys nodi darn o dir yr aseswyd ei fod yn addas oherwydd ei leoliad daearyddol a'i faint.

**GWYBODAETH**

15 Mae'r Gwasanaeth wedi cynnal adolygiad manwl o'i gyfleusterau hyfforddi gweithredol yng ngorsafoedd tân y Rhyl a Dolgellau, ac o ganlyniad daeth i'r amlwg nad ydynt yn darparu'r cyfleusterau sy'n ofynnol i hyfforddi diffoddwyr tân sy'n gweithredu mewn gwasanaeth tân ac achub modern.

16 Er bod cyfleuster hyfforddi'r tŷ tân yng ngorsaf dân Dolgellau yn parhau i gael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant gweithredol, mae gofyn buddsoddi'n sylweddol ynddo i estyn ei oes yn y tymor canolig ar gyfer hyfforddiant offer anadlu risg critigol a thactegau diffodd tân ac ni ellir ei ystyried fel opsiwn tymor hir. Mae hefyd mewn ardal yng Ngogledd Cymru sy'n gryn bellter i'r mwyafrif o'n staff deithio a mynychu cyrsiau offer anadlu yno.

17 Yn ystod y degawd diwethaf bydd yr Awdurdod wedi sylwi bod nifer y tanau a digwyddiadau brys eraill wedi gostwng yn sylweddol. Er bod hon yn stori o lwyddiant i'r gwaith atal tân sydd wedi digwydd yn ein cymunedau yn ystod y cyfnod hwn, mae wedi arwain at y risg y bydd diffoddwyr tân yn cael llai o gyswllt â'r ystod eang o beryglon a sefyllfaoedd cymhleth y maent yn debygol o'u hwynebu wrth fynychu digwyddiadau o'r fath.

18 Mae halogyddion tân hefyd yn peri risg o'r nwyon fflamadwy gwenwynig a'r mwg a ryddheir yn ystod tanau, a gallant gyfrannu at ganser a chyflyrau iechyd eraill mewn diffoddwyr tân. Felly, mae angen cynnwys hyfforddiant rheoli halogyddion tân wrth ddylunio canolfan hyfforddiant a datblygu newydd. Er bod mesurau dros dro wedi'u rhoi ar waith, mae rheoli halogyddion tân yn y tymor hir yn peri pryder o ran iechyd a diogelwch yn y cyfleusterau hyfforddi presennol yn Nolgellau.

19 Er mwyn lliniaru'r risgiau hyn, mae angen i hyfforddiant a datblygiad gweithredol i'n staff mewn amgylchedd hyfforddi trochol a realistig, sy'n cynnwys mesurau iechyd a diogelwch digonol, fod yn un o'r prif ystyriaethau wrth ddylunio canolfannau hyfforddiant a datblygu. Bydd hyn yn darparu cyfleusterau hollbwysig am y 25 mlynedd nesaf o leiaf yng Ngogledd Cymru.

20 Mewn cyfarfod o'r Awdurdod ar 17 Hydref 2022, cymeradwywyd yr argymhelliad i ddyrannu cyllideb gychwynnol i'r prosiect, a oedd yn cynnwys yr opsiwn i ymrwymo i gytundeb cyfyngedig gyda pherchennog tir safle yr aseswyd ei fod yn addas o ran maint a lleoliad.

21 Ers y cyfarfod hwnnw o'r Awdurdod, nodwyd tir addas ar gyfer lleoli canolfan hyfforddiant a datblygu yn Sir Ddinbych ac, yn dilyn sgyrsiau adeiladol gyda'r asiant tir a'r swyddfa gynllunio leol, mae'r Awdurdod ar fin ymrwymo i gytundeb cyfyngedig gyda pherchennog y tir i gynnal yr arolygon a'r asesiadau addasrwydd tir angenrheidiol. Nid yw'r cytundeb hwn yn rhwymo'r Awdurdod i'r pryniant ond mae'n caniatáu i bob diwydrwydd dyladwy gael ei wneud.

22 Rhagwelir y bydd cam nesaf y prosiect yn cymryd tua chwe mis ac yn cynnwys cynnal yr arolygon tir a'r asesiadau perthnasol, a rhagor o ddeialog gyda swyddfa gynllunio Awdurdod Lleol Sir Ddinbych i fodloni ei gofynion cyn i ni gyflwyno cais cyn cynllunio.

23 Bydd canlyniadau'r arolygon safle a'r cais cyn cynllunio i'r swyddfa gynllunio leol yn cael eu hadolygu a gellir cyflwyno argymhellion ar gyfer prynu safle i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 23 Hydref 2023, yn dibynnu ar y canlyniadau.

24 Mae cyllideb ar gyfer prynu tir wedi'i chynnwys yng nghyllideb 2023/24 yr Awdurdod, gyda'r defnydd o'r gyllideb yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau ar sail achos busnes cadarn gan Swyddogion.

25 Ar wahân i brynu tir, mae disgwyl i'r achos busnes manwl ar gyfer y ganolfan hyfforddiant a datblygu newydd gael ei gwblhau erbyn mis Gorffennaf 2023 a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ar gyfer craffu ymhellach arno a'i gymeradwyo bryd hynny.

26 Os caiff ei gymeradwyo bydd amserlen yn cael ei datblygu, ond rhagwelir y gallai'r gwaith adeiladu gychwyn yn ystod dechrau 2025 yn dilyn cais cynllunio, datblygu briff dylunio manwl a chaffael prif gontractwr.

27 Bydd yr aelodau'n cael eu diweddaru a'u hysbysu ar gynnydd y prosiect wrth iddo ddatblygu yn ystod y misoedd nesaf.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â'r holl Amcanion Llesiant a Chorfforaethol 2022/23 a bydd yn hyrwyddo diogelwch diffoddwyr tân, yn cefnogi parodrwydd gweithredol ac yn sicrhau cynaliadwyedd dros y tymor hwy. |
| Cyllideb | Cymeradwyodd yr Aelodau ddefnyddio £250,000 o gronfeydd wrth gefn er mwyn datblygu achos busnes manwl ar gyfer opsiynau canolfan hyfforddiant a datblygu newydd yn GTAGC. Bydd angen cyllideb ychwanegol ar gyfer prynu tir a chostau adeiladu, pe bai'r achos busnes yn cael ei gymeradwyo. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd o dan y ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch i sicrhau digonolrwydd hyfforddiant ei staff, a rheoli risgiau megis halogyddion. Aeth y prosiect hefyd i'r afael â'r rhwymedigaeth gyfreithiol ehangach i leihau allyriadau carbon. |
| Staffio | Mae tîm a rhanddeiliaid y prosiect wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Cychwyn Prosiect (PID) i'w chymeradwyo gan Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae'r project yn cefnogi iechyd a diogelwch a lles staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Mae goblygiadau ar gyfer y nodweddion gwarchodedig yn cael eu cynnwys yn Asesiad Effaith Integredig y PID. |
| Risgiau | Mae'r holl risgiau wedi'u cynnwys yng nghofrestr risg y PID. |